Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Bydd y cwrs yma yn eich helpu i ddysgu am y canlynol:

- Y diwydiant bwyd a diod.
- Gwahanol swyddi yn y diwydiant bwyd a diod.
- Iechyd, diogelwch a hylendid.
- Paratoi, coginio a gweini bwyd.
- Maetheg a chynllunio bwydlenni.
- Costio a rheoli cyfrannau.
- Offer arbenigol arlwyo.
- Cyfathrebu a chadw cofnodion.
- Ystyriaethau amgylcheddol.

Sut fyddai'n dysgu?

Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ysgrifenedig a gwaith ymarferol. Bydd dwy wers yr wythnos ac fel arfer mae un o'r rhain yn ymarferol. Gyda holl agweddau'r pwnc mae'r pwyslais ar arferion diwydiannol.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

- **Gwaith cwrs (60%)** – dwy dasg ymarferol.
  Tasg 1 (20%) e.e. Cyfres o seigiau yn defnyddio ffrwythau a llysiau.
  Tasg 2 (40%) e.e. Pryd dau gwrs yn dangos seigiau rhyngwladol.

- **Arholiad (40%)** Papur ysgrifenedig 1¼ awr.

Cofiwch!

- Mae pwyslais cryf ar waith ymarferol, ac ar adegau byddwch yn coginio dau eitem yr wythnos. Mae'r gwaith ymarferol yn orfodol.

- Er mai pwnc ymarferol ydi Arlwyo mae llawer o waith ysgrifenedig hefyd, a gosodir gwaith cartref yn wythnosol.

TGAU Arlwyo

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Mrs. Gwyneth E. Owen

Ysgol Eifionydd
Porthmadog